

Mantell Gwynedd

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

11. Ymgyrchu a dylanwadu

11.1 Pwy sy'n fy nghynrychioli i?



Trosolwg

Mae'r daflen wybodaeth hon yn amlinellu gwahanol lefelau sefydliadau a etholwyd yn ddemocrataidd yng Nghymru a fydd yn gymorth i bobl ateb y cwestiwn 'pwy sy'n fy nghynrychioli i?'. Bydd hefyd yn archwilio'r prif faterion a ddelir gyda bob corff, i'w wneud yn haws i bobl ddeall pwy fydd rhaid iddynt ymweld ar gyfer cymorth gyda materion penodol.

Sawl cynrychiolydd sydd gen i?

Ar unrhyw bryd penodol, fe fydd gan bob dinesydd Cymreig 11 o gynrychiolwyr a etholwyd yn ddemocrataidd yn gweithio mewn sefydliadau gwahanol, o'r cynghorau tref a chymuned (o leiaf un cynghorydd, os oes cyngor tref neu gymuned yn eich ardal), i awdurdodau lleol (o leiaf un cynghorydd), Cynulliad Cenedlaethol Cymru (pum Aelod Cynulliad - AC), Llywodraeth y Deyrnas Unedig (un Aelod Seneddol - AS) a Senedd Ewropeaidd (pedwar Aelod o'r Llywodraeth Ewropeaidd - ASE).

Un o'r dulliau cyflymaf i ddarganfod pwy sy'n cynrychioli eich ardal yw defnyddio'r wefan hon: www.writetothem.com. Wrth ddefnyddio eich côd post, fe ddywed wrthyfch pwy yw eich cynrychiolwyr etholedig ar gyfer pob sefydliad ac eithrio cynghorau tref a chymuned.

Cynghorwyr tref a chymuned

Mae yna 735 o gynghorau tref a chymuned yng Nghymru, a thua 8,000 o gynghorwyr etholedig, ac ystyrir y rhain i fod yn sylfaen llywodraeth yng Nghymru. Diau fod gennych nifer o gynghorwyr tref neu gymuned yn cynrychioli eich ardal. I'r gwrthwyneb, efallai nad oes cyngor tref neu gymuned yn eich ardal. Maen nhw'n trin a thrafod materion lleol, ac efallai'n gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gynyddu prosiectau lleol a darparu gwasanaethau megis:

- tasgluoedd cymunedol
- canolfannau cymunedol, neuaddau pentref a chanolfannau hamdden
- cofebion rhyfel
- arwyddion a hysbysfyrddau gwybodaeth cyhoeddus
- seddau cyhoeddus ac arosfa bysiau

Y ffordd orau i ddarganfod manylion cyswllt eich cynghorwyr tref neu gymuned yw trwy eich awdurdod lleol, a ddylai gael manylion yr holl gynghorau tref a chymuned yn yr ardal. Gallwch hefyd ddod i wybod mwy am Gynghorau Tref a Chymunedol yng Nghymru drwy “Un Llais Cymru”, y sefydliad sy’n eu cynrychioli a’u cefnogi nhw: www.onevoicewales.org.uk

Cynghorwyr yr awdurdod lleol

Mae yna 22 awdurdod lleol yng Nghymru, gyda phob un yn Awdurdod Unedol. Ystyr hyn yw bod un cyngor yn darparu holl wasanaethau’r awdurdod yn lleol, yn lle bod yna gyngor rhanbarthol neu fwrdeistref a chyngor sir.

Mae yna dros 1,200 cynghorydd a etholwyd yn ddemocrataidd yn gwasanaethu ar y 22 awdurdod lleol yng Nghymru, a bydd pob cynghorydd yn cynrychioli ardal arbennig a elwir yn ward (neu ranbarth etholedig). Efallai bod mwy nag un cynghorydd yn cynrychioli ward. Mae rhai wardiau sy’n fwy poblog yn defnyddio sawl cynghorydd. Bydd eich awdurdod lleol yn medru rhoi gwybodaeth i chi am eich cynghorydd ward, neu ewch i wefan www.writetothem.com. Dyma restr o faterion a ddelir ar lefel awdurdod lleol:

- treth y cyngor
- ymrafael â chymunedau dan anfantais neu ail-adeiladu
- materion trafnidiaeth lleol
- diogelwch y gymuned a lleihau trosedd
- gwasanaethau gofal cymdeithasol
- addysg a dysgu gydol oes
- tai
- y celfyddydau, chwaraeon a diwylliant
- yr amgylchedd
- ceisiadau cynllunio
- strategaethau twristiaeth lleol

Aelodau’r Cynulliad (AC)

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys 60 Aelod y Cynulliad etholedig, a bydd gan bob dinesydd Cymreig 5 Aelod yn eu cynrychioli. Sut mae hyn yn gweithio? Mae 40 ardal etholaeth yng Nghymru e.e. Wrecsam, Gorllewin Caerdydd, Blaenau Gwent, ac mae gan bob etholaeth ei AC etholedig ei hun. Fodd bynnag, mae yna hefyd bum rhanbarth etholaethol mwy o faint yng Nghymru (Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, De-Orllewin Cymru, Canolbarth De Cymru a De-Ddwyrain Cymru), ac mae gan bob un o’r rhanbarthau yma bedwar AC pellach yn cynrychioli’r bobl yn y rhanbarth.

Gallwch ddarganfod pwy yw eich AC yn eich ardal drwy edrych ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru www.cynulliadcymru.org neu www.writetothem.com

Mae'r Cynulliad yn gyfrifol am, a ddeddfu arnynt, y materion canlynol a ddatganolwyd o Lywodraeth y DU:

- amaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygiad gwledig
- henebion ac adeiladau hanesyddol
- diwylliant
- datblygiad economaidd
- addysg a hyfforddiant
- yr amgylchedd
- gwasanaethau tân ac achub a hyrwyddo diogelwch tân
- bwyd
- iechyd a'r gwasanaethau iechyd
- priffyrdd a thrafnidiaeth
- tai
- llywodraeth leol
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- gweinyddiaeth gyhoeddus
- lles cymdeithasol
- chwaraeon a hamdden
- twristiaeth
- cynllunio tref a gwlad
- amddiffyniad dŵr a llifogydd
- yr iaith Gymraeg

Aelodau Seneddol (AS)

Er bod gan Gymru bellach ei Chynulliad Cenedlaethol, ac yn medru deddfu ei hun, mae'r pwerau yn gyfyngedig, ac mae'n bwysig nodi fod Cymru yn rhan o'r DU. Golyga hyn fod gan Gymru 40 Aelod Seneddol etholedig yn gwasanaethu yn y Llywodraeth yn San Steffan. Etholir yr AS yn yr un etholaethau a'r AC, felly bydd un AS yn eich cynrychioli chi yn eich ardal.

Gallwch ddarganfod eich AS drwy edrych ar wefan Llywodraeth y DU sef www.parliament.uk neu www.writetothem.com

Dim ond y gallu i wneud deddfau mewn ambell faes sydd gan y Cynulliad Cenedlaethol, felly mae'n dilyn mai Llywodraeth y DU yw'r unig ddeddfwr mewn rhai meysydd, gan gynnwys:

- amddiffyn
- materion tramor
- polisi cyllidol, ariannol ac economaidd
- darlledu
- nawdd cymdeithasol
- mewnfudo

- cyfraith cyflogaeth
- cyfraith plismona a throreddol

Aelodau Senedd Ewrop (ASE)

Oherwydd bod Cymru yn rhan o'r DU, a'r DU yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd, rydyn ni'n ethol pobl i Senedd Ewrop i helpu gwneud penderfyniadau am faterion sy'n effeithio pobl ar lefel Ewropeaidd. Mae Cymru gyfan yn un o 12 rhanbarth Senedd Ewropeaidd, ac mae gennym bedwar ASE yn ein cynrychioli ni yng Nghymru.

Yn sylfaen i'r Undeb Ewropeaidd (UE) mae'r syniad y gall nifer o feysydd polisi fod yn effeithiol os sefydlir hwy ar lefel Ewropeaidd yn hytrach na chenedlaethol. Amcangyfrifir fod rhwng 60 ac 80 y cant o ddeddfau newydd y DU wedi'u sefydlu yn yr Undeb Ewropeaidd. Prif rôl Senedd Ewrop yw dadansoddi a diwygio holl ddeddfwriaeth yr UE, yn gyntaf drwy ei bwyllgorau ac wedyn mewn sesiwn lawn. Gall y Senedd hefyd ofyn i'r Comisiwn Ewropeaidd i ddrafftio deddfwriaeth mewn unrhyw faes sy'n mynnu gweithrediad yr UE. Felly mae'n anodd categorio'r materion sy'n ymwneud â Senedd Ewrop, gan ei fod yn ymdrin â sawl peth, gan gynnwys:

- symud rhwystrau masnach i roi hwb i dyfiant a swyddi
- gwella'r amgylchfyd
- materion hawliau dynol
- ymladd trosedd rhyngwladol a mewnfudiad anghyfreithlon.

O ystyried briff eang yr ASE, mae hi bob amser yn werth sôn wrthynt am faterion llosg.

Gallwch ddarganfod pwy yw eich ASE drwy edrych ar wefan Swyddfa'r DU o Senedd Ewrop www.europarl.org.uk neu www.writetothem.com

Gwybodaeth Bellach

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Ffôn: 0800 2888 329

www.wcva.org.uk

Mae **WriteToThem.com** yn brosiect annibynnol elusennol sy'n helpu'r cyhoedd i gysylltu â'u cynrychiolwyr etholedig.

www.writetothem.com

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

www.cynulliadcymru.org

Senedd y DU

www.parliament.uk

Senedd Ewrop

www.europarl.org.uk

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Mantell Gwynedd

23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AB

Elusen Gofrestredig: 1068851

Ffôn: 01286 672626

ymholiadau@mantellgwynedd.com

Ffacs: 01286 678430

www.mantellgwynedd.com

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli

Wedi ei ddiweddarau: 19/10/2012



Ffôn: 0300 111 0124

www.wcva.org.uk